

## **Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru – Adolygiad Lleol o Ddiogelwch, Urddas a Phrofiad Cleifion wrth aros mewn Ambiwllansys pan fydd oedi wrth drosglwyddo gofal**

### **Cylch Gorchwyl**

#### **Pam rydym yn gwneud y gwaith hwn?**

Mae'n glir bod pwysau unigryw, nas gwelwyd o'r blaen, ar y system gofal iechyd bellach o ganlyniad i bandemig COVID-19. Fodd bynnag, ymrwymiad a nod parhaus Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw sicrhau bod pobl yng Nghymru yn cael gofal o ansawdd da, a ddarperir yn ddiogel ac yn effeithiol, yn unol â safonau cydnabyddedig.

Fel rhan o'n rhaglen o adolygiadau blynyddol, gwnaethom ymrwymo i gynnal adolygiad lleol o Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yn ystod 2020-21.

#### **Cwmpas a Methodoleg**

Mae amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth yn dangos y gall fod angen i gleifion aros mewn ambiwlansys y tu allan i Adrannau Achosion Brys ysbytai am gyfnodau hir iawn, yn arbennig pan fydd y system gofal iechyd o dan bwysau. Mae'r ffynonellau gwybodaeth hyn yn cynnwys dangosyddion perfformiad misol ambiwlansys Llywodraeth Cymru, hysbysiadau o Ddigwyddiadau Difrifol i Lywodraeth Cymru, gwybodaeth a ddelir gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, adroddiadau yn y cyfryngau a thrafodaethau rhwng AGIC ac uwch-staff yn yr Ymddiriedolaeth ac yn y Byrddau Iechyd. Hefyd, tynnwyd sylw at achosion o oedi yn y broses drosglwyddo i Adrannau Achosion Brys, a oedd yn golygu bod llai o ambiwlansys ar gael, yn yr adolygiad o Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru a gynhaliwyd gan AGIC yn ystod 2019/20. Archwiliodd yr adolygiad blaenorol

y ffordd roedd y risgiau i iechyd, diogelwch a lles cleifion yn cael eu rheoli wrth iddynt aros am ambiwlans. Ceir copi o'r adroddiad hwn [yma](#).

Mewn ymateb i'r materion a nodir uchod, bydd yr adolygiad lleol hwn yn ystyried yr effaith y mae aros y tu allan i Adrannau Achosion Brys yn ei chael ar ddiogelwch, preifatrwydd, urddas a phrofiad cyffredinol cleifion. Mae pwysau unigryw, nas gwelwyd o'r blaen, ar y system gofal iechyd bellach o ganlyniad i bandemig COVID-19; yng ngoleuni hyn, bydd yr adolygiad yn ystyried profiad cleifion dros y 12 mis diwethaf er mwyn deall yr effaith y mae pandemig COVID-19 wedi'i chael ar y broblem hon.

Byddwn hefyd yn ystyried a oes amrywiadau lleol a rhanbarthol yng Nghymru, ac yn tynnu sylw at unrhyw arferion da a nodir. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn edrych ar y canlynol:

- Y gweithdrefnau sydd ar waith rhwng pob adran achosion brys mewn ysbyty ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru ar gyfer derbyn cleifion o ambiwlansys i ofal staff byrddau iechyd
- Profiad cyffredinol cleifion fydd yn gorfod aros mewn ambiwlans gan gynnwys diogelwch cleifion ac unrhyw effaith ar eu llesiant
- Sut mae urddas cleifion yn cael ei gynnal a sut mae anghenion cleifion yn cael eu diwallu, gan gynnwys anghenion maeth, hydradu a thoiled wrth aros mewn ambiwlans
- Effaith yr achosion o oedi ar staff ambiwlansys.

Er mwyn asesu'r meysydd a nodir uchod, bydd yr adolygiad yn cynnwys dadansoddiad o ganllawiau a gweithdrefnau gweithredu safonol perthnasol, yn ogystal â gwybodaeth arall megis digwyddiadau clinigol sy'n ymwneud â throsglwyddo gofal. Byddwn hefyd yn casglu barn cleifion drwy arolygon er mwyn deall eu profiad wrth aros mewn ambiwlans. Byddwn yn ymgysylltu â Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru a Chynghorau Iechyd Cymuned er mwyn gofyn am eu help i gael barn cleifion. Byddwn hefyd yn cynnal nifer o gyfweiliadau â staff ambiwlansys ac adrannau achosion brys, yn ogystal ag uwch-reolwyr yn Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru a Byrddau Iechyd. Hefyd, byddwn yn rhannu arolwg staff er mwyn rhoi cyfle i'r holl staff rannu eu barn a'u profiadau â ni. Mae AGIC yn bwriadu cwblhau'r holl waith maes o bell o ganlyniad i bandemig COVID-19.

## Amserlen

Mae'r tabl isod yn rhoi amserlen fras ar gyfer yr adolygiad:

Gweithgaredd	Amserlen
Cynllunio gwaith maes ac adolygu dogfennau	Mawrth 2021

Gwaith maes	Ebrill – Mai 2021
Cyhoeddi'r Adroddiad	Gorffennaf 2021

## Dadansoddi ac adrodd

Drwy gydol cam gwaith maes yr adolygiad, bydd tîm yr adolygiad yn rhoi adborth ar unwaith os bydd unrhyw faterion yn codi sy'n risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion.

Daw'r adolygiad i ben drwy gyhoeddi adroddiad a fydd yn nodi'r themâu a'r argymhellion allweddol a nodwyd gan ein gwaith. Ni chaiff unrhyw wybodaeth a rannwyd gan y staff yn ystod y gwaith maes ei phriodoli'n uniongyrchol iddynt yn yr adroddiad. Hefyd, bydd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o fersiwn dienw o ganlyniadau'r arolwg.

Bydd yr Ymddiriedolaeth (a'r byrddau iechyd lle bo hynny'n berthnasol) yn cael copi o'r adroddiad drafft i wneud sylwadau ar gywirdeb ffeithiol, yn ogystal â chopi o'r adroddiad terfynol cyn iddo gael ei gyhoeddi.

Os caiff meysydd i'w gwella eu nodi, mae'n bosibl y bydd angen i'r Ymddiriedolaeth a'r Byrddau Iechyd lunio cynllun gwella a fydd yn amlinellu sut y bydd y gwasanaethau yn mynd i'r afael â chanfyddiadau'r adroddiad. Ar ôl ei adolygu, caiff unrhyw gynllun gwella ei gyhoeddi ar wefan AGIC ynghyd â'r adroddiad.

## Data Personol

Mae'r adolygiad hwn yn rhan o waith AGIC i ddarparu sicrwydd annibynnol ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru. Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Rhan II, Pennod 4) yn rhoi'r pŵer i AGIC gynnal arolygiadau ac adolygiadau o'r GIG neu wasanaethau a ddarperir i'r GIG, ac ymchwilio iddynt.

Mae'r cylch gorchwyl hwn yn amlinellu'r dull adolygu rydym yn bwriadu ei ddefnyddio.

Pan fyddwn yn prosesu data personol, bydd hyn yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn hysbysiad preifatrwydd AGIC ar ein gwefan <https://agic.org.uk/polisi-preifatrwydd>.